

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
7 Gorffennaf 2016 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Dafydd Iwan, Gwyneth Thomas, Edd Huws, Geraint R. Jones, Emyr Williams, Christopher Hughes

Cadeirio: Erddyn Davies

Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. YMDDIHEURIADAU

Ian Jones, Sioned Williams

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd. Cynnig: Dafydd Iwan

Eilio: Geraint R. Jones

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Ffordd Osgoi Bontnewydd

Derbyniwyd esboniad gan y contractiwr am y newidiadau i'r cynllun gwreiddiol, a'r bwriad i gadw Lon Pen y Bryn ar agor a cadw Lon Rhos Bach ar agor, yn hytrach nag fel arall yn y cynllun gwreiddiol.

Y rheswm am hyn yw er mwyn lleihau y cyfaint o ddeunydd fyddai'n angenrheidiol ar gyfer adeiladu'r cynllun, drwy leihau'r arglawdd mawr rhwng cylchfan Meifod a'r chwarel. Trwy wneud hyn byddai hyd yr arglawdd yn gostwng tua 30%.

Gan y bu sylw yn y wasg am oedi i gychwyn y gwaith ar y ffordd osgoi, (oherwydd problemau amgylcheddol), ysgrifennodd y Clerc i ofyn am ddiweddariad ar amserlen y ffordd, a disgwylir ateb.

4.2 Swyddfa Treth Porthmadog

Danfododd y Clerc lythyr at Liz Saville Roberts A.S. a Dafydd Elis-Thomas A.C., ac hefyd at aelodau'r cynulliad ar restr rhanbarth canol Cymru, sef Neil Hamilton, Simon Thomas, Joyce Watson ac Eluned Morgan, yn gofyn am eu cefnogaeth i gadw swyddfa treth Porthmadog ar agor.

Disgwylir atebion.

4.3 Ardaloedd Cymunedol Gwynedd

Cafwyd trafodaeth ar y mapiau yn dangos yr is-ardaloedd y bwriada Cyngor Gwynedd eu mabwysiaidau yn dilyn gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r ardaloedd wedi eu rhannu gan gymryd i ystyriaeth tebygrwydd ieithyddol, economaidd, diwylianol a'r defnydd o wasanaethau, er mwyn asesu llesiant arfaethedig.

Bydd Cyngor Gwynedd yn ymgynghori yn fanylach ar yr ardaloedd cymunedol ystod Hydref 2016, ac felly bydd cyfle pellach i gynnig sylwadau pellach bryd hynny.

4.4 Cyfyngiad 20 Mya Bontnewydd

Ysgrifennodd y Clerc at yr Asiantaeth Priffyrdd yn cadarnhau ein bod yn fodlon i'r cyfyngiad 20 mya ger Ysgol Bontnewydd gael ei wneud yn barhaol.

Cadarnhaodd yr Asiantaeth Priffyrdd y bydd gorchymyn parhaol yn cael ei wneud yn y dyfodol agos.

.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a chostau Clerc Mehefin 2016

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £253.18

Cyfanswm Net £211.58

5.2 Costau postio £1.10

5.3 Glanhau cysgodfannau Bontnewydd Mai – Mehefin 2016, Anfoneb 1611 Wyn Williams, £90.00

5.4 Balans yn y banc 7 Gorffennaf 2016 £10,399.07, (heb gynnwys taliad £2,810 Y Ganolfan oedd heb fynd drwy'r banc)

6. Cynllunio a Materion Cyfreithiol Eraill

Dim

7. GOHEBIAETH

Llythyr diolch Urdd Gobaith Cymru

- Llythyr diolch Cymdeithas Lenyddol Bontnewydd
- Llythyr diolch Eisteddfod Bontnewydd
- Age Cymru
- Cyfarfod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Arloesi Gwynedd Wledig – Perchnogaeth Gymunedol

Derbyniwyd yr ohebiaeth uchod er gwybodaeth, ag eithrio y llythyr gan Arloesi Gwynedd Wledig. Mae Arloesi Gwynedd Wledig yn chwilio am Gynghorau Cymuned fyddai a diddordeb i gymryd cyfrifoldeb dros rai gwasanaethau lleol oddi wrth Gyngor Gwynedd, e.e. torri gwair, parciau chwarae . Cytunwyd na fyddai'n bosibl i Gyngor Cymuned Y Bontnewydd wneud hyn heb ffynhonell ariannu ychwanegol.

8. MATERION ERAILL

8.1 Adolygu'r penderfyniad i osod bin sbwriel yn arosfan Rhes Brymer

Penderfynwyd peidio a gosod bin sbwriel yn arosfan Rhes Brymer. Roedd hyn oherwydd y gost, (tua £100 am fin a'i osod a £156 y flwyddyn l'w wagio), ac oherwydd pryder y gallai bin ddenu sbwriel a llanast ychwanegol.

Sylwyd yn ddiweddar fod bagiau plastig du yn cael eu gadael y tu allan i'r bin yn yr arosfan sydd dros y ffordd.

8.2 Cadarnhau diwygiadau 'r Cod Ymddygiad

Mae angen diwygio'r Cod Ymddygiad oherwydd darpariaethau Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016, sy'n diwygio'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol sydd wedi ei fabwysiadu gan y mwayfrif o gynghorau cymuned yng Nghymru

Cytunwyd fod y Clerc yn danfon fersiwn diwygiedig gyda'r newidiadau wedi eu marcio l bawb er mwn cael trafodaeth yng nghyfarfod Medi.

8.3 Diweddariad Pwyllgor Arfon Dwyfor Un Llais Cymru

Mynychodd y Cynghorydd Geraint R. Jones Bwyllgor Arfon Dwyfor Un Llais Cymru. Un o'r mateiron a drafodwyd oedd yr angen i gynghorau cymuned gael polisi cwynion.

Gofynnwyd felly i'r Clerc lunio polisi cwynion i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod mis Medi.

8.4 Ymchwiliad Gorfodaeth Stryd Cyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori are eu polisi glendid stryd. Gofynnwyd tri cwestiwn:-

1. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai cyngor Gwynedd fod yn fwy llym wrth daclo sbwriel a baw cwn

Cytunwyd

2. A ddylai Cyngor Gwynedd roi dirwy yn y fan a'r lle am ollwng sbwriel neu faw cwn?

Cytunwyd

3.

A ddylai Cyngor Gwynedd ddefnddio cwmni allanol I erlyn a chosbi'r rhai sy'n gollwng sbwriel ac yn gadael i'w cwn faeddu?

Anghytunwyd

Teimlwyd yn gryf na ddylid cyflogi cwmni preifat i wneud y gwaith yma. Mynegwyd pryder o ddewis cwmni o'r tu allan i'r Sir, ac am amodau gwaith y cwmni. Byddent yn debygol o gyflogi staff ar amodau salach na Chyngor Gwynedd.

Os oedd cwmni preifat yn mynd i allu gwneud y gwaith a llwyddo i wneud elw, yna pam na fedrai Cyngor Gwynedd wneud y gwaith yn fewnol eu hunain?

Penderfynwyd annog Cyngor Gwynedd i wneud y gwaith yn fewnol a pheidio a chytundebu efo cwmni preifat.

8.5 Diweddariad Biniau Halen – Un Llais Cymru a Cyngor Gwynedd

Bu trafodaeth rhwng Un Llais Cymru a Cyngor Gwynedd oherwydd y pryderon a fynegwyd gan nifer o gynghorau cymuned am drosglwyddo costau llewni biniau halen o Gyngor Gwynedd i gynghorau cymuned.

- Byddai angen i unrhyw gontractiwr allanol sydd am gyflenwi halen gael cymhwyster
- Ni fyddai Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am y biniau pe defnyddir ccontractiwr allanol

8.6 Diweddariad Maes Chwarae Llwyn Beuno

Rhoddodd y Cyngohorydd Chirs Hughes ddiweddariad ar y cyswllt fu rhyngddo a Chyngor Gwynedd ar y diffyg torri gwitr ym Maes Chwarae Llwyn Beuno. Mae'r gwair bellach wedi ei dorri, ond bydd yn cael ei dorri'n llai aml oherwydd toriadau ariannol Cyngor Gwynedd.

Trafodwyd y posibilrwydd i'r Cyngor Cymuned gymryd cyfrifoldeb am y maes chwarae ac felly torri'r gwair yn amlach.

Bu trafodaeth am hyn o'r blaen, a'r farn oedd pe byddai offer newyddyn cael ei osod yno, byddia hyn yn rhywbeth y byddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon ei draofd ymhellach. Fodd bynnag, byddai ysgwyddo baich am yr offer presennol, eu harchwilio'n flynyddol, torri'r gwair yswiriant a chynnal a chadw, yn ormodol heb fynhonell ariannol bellach.

8.7 Rheoliadau Ariannol Newydd

Mae Un Llais cymru wedi diwygio'r Rheolau Ariannol enghreifftiol a ddenfyddir gan gynghorau cymuned.

Cytunwyd fod y Clerc i ddanfod ferswn ddiwygiedig o'r rheolau i'w hystyried yng nghyfarfod Medi.

8.8 Ymgynghoriad Teithio Llesol Cyngor Gwynedd

Daeth y Ddeddf Teithio Llesiol (Cymru) 2013 i rym ym Medi 2014, ac mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i wella cyflwr a llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Rhaid hefyd baratoi mapiau yn nodi'r llwybrau y gellir eu denfyddio ar hyn o bryd yn ogystal a llwybrau arfaethedig y gellir eu defnyddio yn y dyfodol.

Daeth y cyfnod ymgynghori llwybrau cyfnod cyntaf sydd wedi eu harchwilio i ben ar 10 Ionawr 2016

Bydd 6wythnos ychwanegol o ymgynghori rhwng 4 Gorffennaf a 15 Awst 2016, a'r cyfnod yma yn ymwneud a'r llwybrau ychwanegol sydd wedi eu harchwilio.

Does dim o'r llwybrau yma yn ardal Bontnewydd, ac felly fe gytunwyd nad oes angen ymateb ymhellach i'r ymgynghoriad ar hyn o bryd.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

1 Medi 2016 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd.

